

Arolygiad o Ysbyty (Dirybudd)

Ganolfan Ganser Felindre

Dyddiad arolygu: 19 a 20 Mawrth
2019

Dyddiad cyhoeddi: 21 Mehefin
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Ein canfyddiadau.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	21
4.	Beth nesaf?	25
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai	26
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	27
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	28
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	29

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ganolfan Ganser Felindre, o fewn Ymddiriedolaeth GIG Felindre, ar 19 a 20 Mawrth 2019. Ymwelwyd â'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward y Llawr Cyntaf
- Ward Cemotherapi i Gleifion Mewnol

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr AGIC, yr oedd un ohonynt yn gweithredu fel yr arolygwr lleyg, a dau adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Mynegodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad foddhad gyda'r gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd.

Roedd anghenion gofal y cleifion wedi'u hasesu gan y staff ac roedd y staff yn monitro'r cleifion er mwyn hyrwyddo eu lles a'u diogelwch.

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda iawn ar y ddwy ward, gyda'r staff yn sôn yn gadarnhaol am y cymorth y maent yn ei gael gan reolwyr y ward. Fodd bynnag, gwelsom beth tystiolaeth nad oedd yr Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Ymgysylltu'n dda rhwng y staff a'r cleifion
- Amgylchedd croesawgar
- Darparu bwyd a diodydd
- Ymgysylltu â theuluoedd/gofalwyr a chefnogaeth a chyfleusterau
- Polisiâu a gweithdrefnau cynhwysfawr
- Dull amlddisgyblaethol o ddarparu gofal
- Atal a rheoli heintiau
- Rheoli meddyginiaeth
- Cyfathrebu
- Trosolwg, archwilio ac adrodd gan y rheolwyr
- Cefnogaeth, goruchwyliaeth ac arfarniadau gan y staff

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Arddangos gwybodaeth Gweithio i Wella¹ ar ward y Llawr Cyntaf
- Argaeledd gwybodaeth yn Gymraeg
- Cynlluniau gofal unigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Rhai agweddau ar reoli ffeiliau a diogelu data
- Storio ar ward y Llawr Cyntaf
- Rhai agweddau ar reoli heintiau.

¹ Mae Gweithio i Wella yn broses o ymdrin â Chwynion, Honiadau a Digwyddiadau a elwir gyda'i gilydd yn "Bryderon". Mae hwn yn newid diwylliannol sylweddol i'r GIG yng Nghymru o ran y ffordd y mae'n ymdrin â phethau sy'n mynd o chwith, gan gyflwyno un dull cyson o raddio pryderon ac ymchwilio iddynt, yn ogystal â bod yn fwy agored a chynnwys y person sy'n codi'r pryder.

3. Ein canfyddiadau

Cefndir y gwasanaeth

Mae Canolfan Ganser Felindre yn darparu gwasanaethau cancer arbenigol i dros 1.5 miliwn o bobl yn ne ddwyrain Cymru a thu hwnt. Mae'n un o'r canolfannau cancer mwyaf yn y DU. Bob blwyddyn, mae'n derbyn dros 5,000 o atgyfeiriadau newydd ac mae'n ymgymryd â thua 50,000 o apwyntiadau cleifion allanol newydd. Mae'n cyflogi dros 670 o staff ac mae ganddi gyllid blyneddol o fwy na £49 miliwn.

Daw cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio i Ganolfan Ganser Felindre o dan ofal Oncolegwyr Clinigol a Meddygol. Mae Oncolegwyr yn arbenigo mewn triniaeth cancer nad yw'n driniaeth lawfeddygol. Canolfan Ganser Felindre yw'r brif ganolfan ar gyfer y gwasanaethau hyn. Fodd bynnag, mae Felindre hefyd yn darparu clinigau cleifion allanol a gwasanaethau cemotherapi allanol eraill ar safleoedd eraill.

Mae Canolfan Ganser Felindre yn un o is-adrannau Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Mynegodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad foddhad gyda'r gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion ar y ddwy ward, gyda'r staff yn cefnogi'r cleifion mewn modd urddasol a pharchus.

Gwelsom fod y cleifion yn gallu symud yn rhydd o gwmpas ardaloedd y ward. Gwelsom staff yn ymdrin â'r cleifion mewn modd digynnwrf a oedd yn tawelu'r meddwl. Roedd yr amgylchedd yn lân ac yn daclus ar y ddwy ward.

Gwnaethom siarad â nifer o gleifion ar y ddwy ward yn ystod yr arolygiad. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Yn ystod fy arhosiad ar y ward, roedd y staff yn gyfeillgar ac yn gymwynasgar iawn. Roedd y ward yn lân ac yn daclus bob amser ac roedd y driniaeth o safon pum seren. Roedd y staff yn rhoi llawer o sylw i mi ac yn gwneud yn siŵr fy mod yn gyfforddus ac yn cael gofal."

"Gofal gwych. Mae'r ysbyty hwn yn glod i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Gobeithio y bydd yn eiddo i'r bobl am byth."

Cadw'n iach

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a darparu eu gofal eu hunain cymaint â phosibl. Pan oedd y cleifion yn methu â gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain, gwelsom fod y staff yn ymgynghori â'r perthnasau ac yn eu hannog i wneud penderfyniadau am y gofal a ddarperir yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn ymdrin ag anghenion cleifion mewn modd preifat a phroffesiynol. Gwelsom y staff yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain, gan gynnal eu hannibyniaeth. Roedd y staff hefyd yn

cynnwys cleifion yn y broses o wneud penderfyniadau am weithgareddau dyddiol.

Gofal ag urddas

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a thosturi gan y tîm staff.

Gwelsom y staff yn ymddwyn yn garedig ac yn barchus tuag at gleifion. Gwelsom y staff yn gwneud ymdrech i ddiogelu preifatrwydd ac urddas cleifion wrth roi cymorth gydag anghenion gofal personol. Cadarnhaodd y cleifion fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ofalu amdanynt.

Roedd yr amgylchedd ar y ddwy ward yn lân ac yn daclus, gan ychwanegu at ymdeimlad cleifion o les.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth hybu iechyd i gleifion a'u teuluoedd/gofalwyr yn cael ei harddangos ac roedd ar gael ar y ddwy ward ac yn ardal y gofalwyr ger y brif fynedfa. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y gellid darparu mwy o daflenni gwybodaeth yn Gymraeg.

Roedd Bwrdd Ciplwg ar Statws Cleifion (PSAG)² wedi'i leoli mewn swyddfa ar y ward Cemotharapi i Gleifion Mewnol. Roedd lleoliad y bwrdd yn golygu bod y wybodaeth allan o olwg yr ymwelwyr a'r cleifion. Fodd bynnag, roedd modd gweld y bwrdd PSAG ar ward y Llawr Cyntaf gan bobl a oedd yn cerdded i lawr coridor y ward. Gwnaethom argymhell y dylid ailddylunio'r bwrdd hwn mewn ffordd a oedd yn galluogi i enwau'r cleifion gael eu gorchuddio pan nad oedd y bwrdd yn cael ei ddefnyddio er mwyn sicrhau cyfrinachedd y cleifion.

² Mae bwrdd Ciplwg ar Statws Cleifion yn ffordd glir a chyson o arddangos gwybodaeth cleifion mewn wardiau ysbyty.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid darparu mwy o daflenni gwybodaeth yn Gymraeg.

Aiddylunio neu adleoli'r bwrdd cipolwg ar gleifion ar ward y Llawr Cyntaf er mwyn sicrhau cyfrinachedd y cleifion.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy gydol ein hymweliad arolygu, gwelsom aelodau o staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn modd digynnwrf ac urddasol. Cyfeiriwyd at y cleifion gan ddefnyddio eu dewis enwau. Gwelwyd y staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn modd anogol a chynhwysol.

Roedd rhai o'r staff a oedd yn gweithio ar y ward yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg). Roedd hyn yn galluogi cleifion a oedd yn siarad Cymraeg a Saesneg i drafod eu hanghenion gofal a chymorth yn eu dewis iaith.

Roedd gwasanaethau cyfieithu ar gael i gleifion a oedd yn dymuno cyfathrebu mewn ieithoedd eraill heblaw Cymraeg neu Saesneg.

Gofal amserol

Gwelsom fod prosesau cynllunio gofal da ar waith ar y ddwy ward. Fodd bynnag, roedd rhai asesiadau heb eu cwblhau'n llawn ar ward y Llawr Cyntaf, er ei fod yn amlwg o'r nodiadau cynnydd dyddiol bod anghenion y cleifion yn cael eu diwallu.

Roedd timau'r ward yn gweithio'n dda gydag aelodau eraill o'r tîm gofal iechyd amlddisgyblaethol er mwyn rhoi gofal unigol i gleifion yn ôl eu hanghenion wedi'u hasesu. Roedd prosesau cadarn ar waith ar gyfer cyfeirio newidiadau i anghenion cleifion at weithwyr proffesiynol eraill megis y nyrs hyfywedd meinwe arbenigol, deietegydd, a therapydd lleferydd ac iaith.

Roedd systemau cynllunio rhyddhau digonol ar waith, gyda chleifion yn cael eu hasesu gan weithwyr proffesiynol eraill megis ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol cyn gadael yr ysbyty.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom fod y broses cynllunio gofal yn ystyried safbwyntiau cleifion ynglŷn â'r ffordd roeddent am gael gofal.

Drwy ein sgysiau â'r staff a'n harsylwadau, cadarnhawyd gennym fod cleifion a/neu eu cynrychiolwyr enwebedig yn cymryd rhan mewn penderfyniadau ynglŷn â'u hanghenion gofal dyddiol. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd bod y staff yn cynorthwyo ac yn darparu gofal pan fo angen. Gwelsom y staff yn annog ac yn helpu cleifion i fod mor annibynnol â phosibl.

Hawliau pobl

Gwelsom fod y staff yn rhoi gofal mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau cleifion.

Gwelsom y staff yn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth ofalu amdanynt. Er enghraifft, roedd llenni yn cael eu defnyddio o amgylch ardaloedd gwely unigol ac roedd drysau i ystafelloedd sengl yn cael eu cau pan oedd gofal yn cael ei roi.

Nid oedd unrhyw gleifion yn ddarostyngedig i Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DOLS),³ ar y naill ward na'r llall, ar adeg yr arolygiad. Fodd bynnag, roedd y staff yn gallu disgrifio'r broses asesu ac atgyfeirio gywir i'w dilyn.

Roedd asesiadau Peidiwch â Dadebru Cardiobwlmonaidd (DNACPR)⁴ yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, nid oedd llawer o dystiolaeth ysgrifenedig i gefnogi

³ Mae trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid (DOLS) yn rhan o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 sy'n fodd cyfreithlon i amddifadu rhywun o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal, os yw hynny er ei fudd pennaf ac os mai hon yw'r ffordd leiaf cyfyngol o gadw'r person yn ddiogel rhag niwed.

⁴ Caiff asesiadau Peidiwch â Dadebru eu cynnal gan feddyg, ac mae'n dweud wrth y tîm meddygol i beidio â cheisio dadebru cardiobwlmonaidd (CPR). Mae'r ffurflen asesu wedi'i llunio i'w hadnabod a'i dilysu yn hawdd, gan alluogi gweithwyr iechyd proffesiynol i wneud penderfyniadau cyflym am sut i drin claf.

trafodaethau â chleifion ynghylch DNACPR wrth dderbyn cleifion, nac yn ystod eu harhosiad ar y wardiau. Roedd ffurflenni asesu wedi'u cwblhau ym mlaen y nodiadau meddygol. Gwnaethom argymhell y dylid darparu adran benodol wedi'i labeli ym mlaen ffeiliau'r cleifion ar gyfer ffurflenni DNACPR. Byddai hyn yn ei gwneud yn haws i'r staff weld p'un a yw penderfyniad DNACPR wedi'i wneud ai peidio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Cofnodi trafodaethau ynghylch DNACPR yn nodiadau cleifion.

Gwrando a dysgu o adborth

Cafodd cleifion a'u cynrychiolwyr gyfleoedd i roi adborth ar eu profiad o'r gwasanaethau a ddarparwyd, drwy drafodaethau wyneb yn wyneb â'r staff.

Roedd systemau da ar waith i reoli cwynion a dywedodd y staff wrthym fod nifer y cwynion a ddaeth i law am y gwasanaeth yn isel.

Roedd gweithdrefn gwyno ffurfiol ar waith a oedd yn cydymffurfio â Gweithio i Wella. Roedd poster Gweithio i Wella i'w weld ar y ward Cemothherapi i Gleifion Mewnol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd unrhyw wybodaeth ar gael am sut i wneud cwyn ar ward y Llawr Cyntaf. Gwnaethom argymhell y dylid arddangos poster Gweithio i Wella mewn ardal amlwg ar ward y Llawr Cyntaf, er mwyn tynnu mwy o sylw at y ffordd y gall pobl godi pryderon.

Yr hyn sydd angen ei wella

Arddangos poster Gweithio i Wella mewn ardal amlwg ar ward y Llawr Cyntaf.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Nodwyd gennym bod y tîm staff yn ymrwymedig i roi gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd offer addas ar gael ac yn cael eu defnyddio er mwyn helpu i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwyso ac atal cleifion rhag syrthio.

Roedd y ddwy ward yn lân ac yn daclus ac roedd trefniadau ar waith i leihau croes-heintio.

Roedd prosesau rheoli meddyginiaethau ffurfiol ar waith.

Roedd anghenion gofal y cleifion wedi'u hasesu gan y staff ac roedd y staff yn monitro'r cleifion er mwyn hyrwyddo eu lles a'u diogelwch.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod y ddwy ward yn cael eu cynnal a'u cadw'n ddigonol ac roedd systemau ar waith i roi gwybod am beryglon amgylcheddol yr oedd angen rhoi sylw iddynt a'u hunioni.

Roedd archwiliadau cyffredinol, archwiliadau clinigol mwy penodol ac asesiadau risg yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar y ddwy ward er mwyn lleihau'r risg o niwed i gleifion, ymwelwyr a staff.

Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd

Gwelsom fod y staff yn asesu cleifion mewn perthynas â'u risg o ddatblygu niwed i'w croen oherwydd briwiau pwyso. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau fod y staff yn cymryd camau priodol er mwyn atal cleifion rhag datblygu briwiau pwyso a niwed i feinweoedd ac roeddent yn gofyn am gyngor arbenigol lle y bo angen.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal ar y ddwy ward a chadarnhau bod asesiadau risg ysgrifenedig wedi cael eu cwblhau gan ddefnyddio adnodd asesu nyrsio cydnabyddedig. Gwelsom hefyd fod y cofnodion monitro wedi cael eu cwblhau, gan ddangos bod y staff yn chwilio am arwyddion o friwiau pwysau ar groen y cleifion yn rheolaidd. Roedd offer lleddfu pwysau addas ar gael ac yn cael eu defnyddio er mwyn helpu i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwysau.

Roedd y cofnodion monitro a welsom yn dangos bod y cleifion wedi cael cymorth neu wedi cael eu hannog i symud safle tra eu bod yn y gwely neu mewn cadair freichiau yn rheolaidd. Gwelsom hefyd y staff yn helpu ac yn annog y cleifion i symud o gwmpas amgylchedd y ward. Mae'r ymyriadau nyrsio hyn yn bethau sy'n helpu i leihau risg y cleifion o ddatblygu briwiau pwysu.

Atal cwympiadau

O archwilio sampl o ffeiliau gofal unigol ar y ddwy ward, gwelsom fod asesiadau'n cael eu cynnal er mwyn lleihau'r risg o gwmpo ac roedd camau cyflym yn cael eu cymryd mewn ymateb i hynny.

Atal a rheoli heintiau

Roedd polisi rheoli heintiau cynhwysfawr ar waith a gwelsom fod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn cadw at y polisi ac egwyddorion arfer da.

Roedd aelod o'r staff wedi cael ei enwebu i arwain y gwaith o reoli heintiau ar gyfer yr ysbyty ac roedd yn gyfrifol am gynnal archwiliadau a sicrhau eu bod yn cadw at bolisiâu a gweithdrefnau. Roedd canlyniadau archwiliad rheoli heintiau yn cael eu harddangos ar hysbysfwrdd ar y ddwy ward.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ar y ddwy ward, megis menig a ffedogau untro i leihau croes-heintio, ac roeddent yn cael eu defnyddio. Roedd cyfleusterau golchi a sychu'r dwylo ar gael. Gwelsom hefyd fod mannau diheintio'r dwylo wedi eu lleoli'n strategol wrth ymyl mynedfeydd/allanfeydd at ddefnydd y staff ac ymwelwyr, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Roedd tapiau peidio â chyffwrdd wedi cael eu gosod ar y ward Cemotharapi i Gleifion Mewnol, ac roedd llenni tafladwy'n cael eu defnyddio o amgylch y gwelyau ar y ddwy ward.

Roedd prinder mannau storio ar ward y Llawr Cyntaf a oedd yn golygu bod cyfarpar yn cael ei storio yn y bae dau wely ym mhen pellaf y ward. Argymhellwn fod y bae pen pellaf yn cael ei glirio.

Gwelwyd rhai o'r staff yn arddangos bathodynau gyda'u henwau arnynt ar laniardiau o amgylch eu gyddfau y gwnaethom ei ystyried fel risg iechyd a diogelwch a rheoli heintiau. Tynnwyd sylw'r tîm Rheoli at hyn a ddywedodd wrthym fod polisi'r Ymddiriedolaeth yn nodi na ddylid gwisgo laniardiau mewn ardaloedd clinigol. Dylid atgoffa'r staff am bolisi'r Ymddiriedolaeth yn ymwneud â hyn a dylid cynnal archwiliadau rheolaidd i fonitro'r defnydd o laniardiau mewn ardaloedd clinigol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Adolygu argaeledd lle storio ar ward y Llawr Cyntaf.

Atgoffa'r staff am bolisi'r Ymddiriedolaeth mewn perthynas â gwisgo laniardiau, a dylid cynnal archwiliadau rheolaidd i fonitro'r defnydd o laniardiau mewn ardaloedd clinigol.

Maeth a hydradu

Gwelsom anghenion bwyta ac yfed cleifion yn cael eu hasesu. Gwelsom hefyd y staff yn helpu cleifion i fwyta ac yfed mewn modd urddasol a digynnwrf.

Roedd y cleifion yn gallu cael gafael ar rywbeth i'w yfed ac roedd jygiau o ddŵr ar gael wrth y gwely, yn ogystal â pheiriant dŵr oer a oedd wedi'i leoli ar y wardiau.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal, a gwelsom fod siartiau monitro bob amser yn cael eu defnyddio lle'r oedd angen gwneud hynny, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael hylifau a maeth a oedd yn briodol at eu hanghenion. Gwnaethom argymhell y dylai'r cleifion gwblhau eu siartiau hylif a bwyd eu hunain lle y bo'n briodol, yn enwedig ar y ward Cemotherapi i Gleifion Mewnol, lle yr oedd cleifion yn llai dibynnol.

Roedd y ddwy ward yn hyrwyddo adegau bwyd a ddiogelir. Roedd hyn yn sicrhau na tharfyd ar y cleifion yn ddiangen yn ystod prydau bwyd er mwyn sicrhau eu bod yn cael digon o faeth a hylif.

Gwelsom brydau amser cinio'n cael eu gweini. Hefyd, gwelsom y staff yn annog y cleifion a'u helpu i fwyta'n annibynnol.

Roedd y prydau bwyd wedi'u cyflwyno'n dda yn ôl y golwg ac roeddent yn archwaethus. Dywedodd y cleifion wrthym fod y bwyd yn dda iawn.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom feddyginiaeth yn cael ei rhoi i gleifion ar y ddwy ward a gwelsom fod y broses yn unol â pholisi'r Ymddiriedolaeth. Gwelsom y staff yn mynd ati i roi meddyginiaeth mewn ffordd ddifrys, gan gymryd yr amser i sicrhau bod cleifion yn gallu cymryd eu meddyginiaeth.

Roedd fferyllwyr yn bresennol ar y wardiau yn ddyddiol er mwyn cynhyrchu presgripsiynau a llythyrau rhyddhau ac adolygu meddyginiaeth y cleifion.

Roedd systemau dosbarthu electronig ar waith. Dim ond staff awdurdodedig oedd yn gallu defnyddio'r rhain ac roeddent yn cael eu monitro gan staff y fferyllfa a oedd yn gyfrifol am ailgyflenwi.

Nid oedd unrhyw gleifion a oedd yn cael gofal ar adeg yr arolygiad yn rhoi meddyginiaeth i'w hunain. Dylid asesu cleifion yn ôl eu gallu i gymryd cyfrifoldeb am eu meddyginiaeth eu hunain. Byddai hyn yn annog annibyniaeth ac yn cynnal a gwella sgiliau cyn cael eu rhyddhau'n ddiogel o'r ysbyty.

Gwelsom fod cynnwys y trolïau trawiad ar y galon/dadebru ar y ddwy ward yn cael eu harchwilio'n rheolaidd a bod unrhyw eitemau sydd wedi mynd heibio'u dyddiadau'n cael eu newid.

Gwelsom fod y ddyfais cau ei hun, sydd wedi'i chysylltu i'r drws sy'n arwain at yr ystafell driniaeth cemotherapi ar y ward Cemotherapi i Gleifion Mewnol, angen cael ei haddasu/hatgyweirio er mwyn sicrhau bod y drws yn cau yn effeithiol pan fydd y staff yn dod i mewn ac yn gadael yr ystafell.

Yr hyn sydd angen ei wella

Addasu/atgyweirio'r ddyfais cau ei hun sydd wedi'i chysylltu i'r drws sy'n arwain i mewn i'r ystafell driniaeth cemotherapi ar y ward Cemotherapi i Gleifion Mewnol.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig ar waith ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant priodol ar y pwnc hwn.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw faterion diogelu cyfredol yn y wardiau ar adeg yr arolygiad.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Roedd amrywiaeth o offer meddygol ar gael ar y ddwy ward ac roedd yr offer yn cael eu cynnal a chadw'n briodol ac roedd cyfarpar cludadwy yn cael eu profi yn ôl y gofyn.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelwyd tystiolaeth o weithio amlddisgyblaethol rhwng y staff nyrsio a'r staff meddygol ar y ddwy ward.

Cynhaliwyd asesiadau risg unigol ar ôl cael eu derbyn, ac roedd dogfennaeth gyflawn wedi'i chwblhau i gefnogi'r asesiadau hyn.

Roedd bwndeli gofal, sy'n gysylltiedig â'r system genedlaethol Sgoriau Rhybudd Cynnar (NEWS)⁵, yn cael eu defnyddio fel ffordd strwythuredig o wella prosesau gofal a chanlyniadau cleifion o ran atal briwiau pwyso, sicrhau maeth digonol a nodi cleifion sy'n wynebu risg o waethygu drwy salwch aciwt neu sepsis.

Roedd systemau gofal da ar waith ar y ddwy ward ar y cyfan. Roedd cynllunio gofal yn ystyried safbwyntiau cleifion ynglŷn â'r ffordd roeddent am gael gofal. Fodd bynnag, nid oedd y cynlluniau gofal yn adlewyrchu'r ddarpariaeth gofal sy'n canolbwyntio ar y person a oedd yn amlwg ar y wardiau, gan eu bod yn gyffredinol o ran eu fformat ac ar ffurf asesiadau risg a chynlluniau gweithredu. Roedd hyn yn eu gwneud yn anodd eu dilyn a'u croes-gyfeirio, gan nad oedd yr asesiadau wedi eu rhifo ac felly, nid oeddent yn cyfateb i gofnodion ar y nodiadau cynnydd.

Gwelsom fod poen yn cael ei asesu a'i gofnodi'n briodol ar y ddwy ward. Roedd sgysiau â'r staff yn dangos ymwybyddiaeth o asesiad rheoli poen a'i bwysigrwydd. Roedd nyrsys lliniarol arbenigol ar gael ar y ddwy ward, saith diwrnod yr wythnos, er mwyn cynnig arweiniad a chynghor ar reoli poen.

⁵ System genedlaethol i nodi cleifion sâl iawn sy'n gwaethygu ac sydd angen gofal meddygol neu ofal nyrsio mwy dwys yw NEWS.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhoi cynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar waith.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth gadarn ar waith ar y ddwy ward, ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a chadw cyfrinachedd.

Drwy archwilio cofnodion hyfforddiant, cadarnhawyd gennym fod yr holl aelodau o staff perthnasol wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

Roedd rhai cofnodion ar ffurf papur tra bod eraill yn cael eu cadw'n electronig. Dywedwyd wrthym fod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu system rheoli cofnodion gwbl electronig i'w defnyddio ym mhob rhan o'r Ymddiriedolaeth.

Gwnaethom dynnu sylw at faterion yn ymwneud â diogelu data mewn perthynas â defnyddio trolïau cyfrifiadur ar goridorau'r wardiau. Ar ddau achlysur, gwelsom gyfrifiaduron yn cael eu gadael heb eu goruchwyllo, gyda gwybodaeth gyfrinachol am gleifion yn weladwy i bobl a oedd yn pasio. Gwnaethom drafod yr angen i'r staff sicrhau bod sgriniau'r cyfrifiaduron wedi eu cloi pan nad oes neb yn eu goruchwyllo, hyd yn oed am gyfnod byr.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod sgriniau'r cyfrifiaduron wedi eu cloi pan nad oes neb yn eu goruchwyllo, hyd yn oed am gyfnod byr.

Cadw cofnodion

Gwelsom sampl o nodiadau gofal cleifion a gwelsom fod ychydig o anghysondeb yn y ffordd y caiff gwybodaeth ei chadw. Mae rhai ffeiliau gofal yn anhrefnus ac yn anodd eu llywio, a gwelwyd dogfennau rhydd ym mlaen rhai ffeiliau yn hytrach nag yn yr adrannau perthnasol. Disgwylir i'r cynllun arfaethedig o newid i system rheoli cofnodion gwbl electronig fynd i'r afael â'r mater hwn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid adolygu ac aildrefnu nodiadau'r cleifion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda iawn ar y ddwy ward, gyda'r staff yn sôn yn gadarnhaol am y cymorth y maent yn ei gael gan reolwyr y ward.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu trin yn deg yn y gwaith a bod diwylliant agored a chefnogol. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn ymwybodol o'r uwch strwythur rheoli yn y sefydliad a bod cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol ar y cyfan.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ar wella gwasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni'n rhannol drwy ei rhaglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig, a oedd yn galluogi aelodau enwebedig o'r staff i gwrdd yn rheolaidd i drafod canlyniadau clinigol a oedd yn gysylltiedig â gofal y cleifion.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, dywedwyd wrthym fod prosesau da, anffurfiol i oruchwylio a chefnogi'r staff o ddydd i ddydd ar waith ar y ddwy ward.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Gwelsom staff cyfeillgar, proffesiynol ar y wardiau a ddangosai ymrwymiad i roi gofal o ansawdd uchel i gleifion. Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau ac roeddent yn gyfarwydd ag anghenion gofal y cleifion roeddent yn gyfrifol amdanynt.

Gwelwyd copïau o rotâu'r staff a ddangosodd i ni fod cymysgedd sgiliau da ymhlith y staff ar ddyletswydd ar bob sifft.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ddosbarthu holiaduron AGIC i'r staff a oedd yn gweithio yn yr ysbyty er mwyn cael gwybod am yr amodau gwaith, ac i ddeall eu barn ar ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion yn yr ysbyty.

Derbyniwyd cyfanswm o 19 o holiaduron wedi'u cwblhau gan staff a oedd yn cyflawni amrywiaeth o rolau yn yr ysbyty. Roedd y staff a gwblhaodd yr holiaduron wedi gweithio yn yr ysbyty am gyfnodau amrywiol, o ychydig fisoedd i dros 10 mlynedd.

Yn yr holiaduron, dywedodd pob aelod o'r staff eu bod wedi ymgymryd ag amrywiaeth eang o hyfforddiant, neu ddysgu a datblygu, mewn meysydd fel iechyd a diogelwch, ac ym mhreifatrwydd ac urddas pobl hŷn tra eu bod yn yr ysbyty yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur yn dweud bod yr hyfforddiant neu'r dysgu a datblygu y maent yn ei gwblhau yn eu helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y gofynion proffesiynol, ac yn sicrhau eu bod yn darparu profiad gwell i gleifion ac yn eu helpu i wneud eu swyddi yn fwy effeithiol.

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi cael arfarniad, adolygiad blynyddol neu adolygiad datblygu o'u gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Lle y nodwyd anghenion hyfforddiant, dysgu neu ddatblygu mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd, dywedodd y mwyafrif o'r staff wrthym yn yr holiaduron fod eu rheolwr bob amser yn eu cefnogi i gyflawni'r anghenion hyn.

Nododd staff yn yr holiaduron nad oeddent yn gallu ateb yr holl alwadau croes yn ystod yr amser yn y gwaith. Fodd bynnag, roeddent yn teimlo bod digon o staff yn y sefydliad fel arfer i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn. Ymhlith y sylwadau gan y staff yn yr holiaduron, roedd y canlynol:

"Rwy'n teimlo bod Felindre yn lle gwych i weithio ynddo. Mae morâl y staff yn wych, mae aelodau'r tîm yn gefnogol, mae rhywun ar gael bob tro i holi os ydych yn ansicr ynghylch rhywbeth."

"Baswn yn argymhell yr ysbyty hwn 100%. Mae'r gofal a'r gefnogaeth a roddir i'r cleifion heb ei ail."

Dywedodd y mwyafrif o'r staff wrthym fod ganddynt ddeunyddiau, cyflenwad a chyfarpar digonol bob amser i wneud eu gwaith. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu gwneud awgrymiadau i wella gwaith eu tîm neu eu hadran, ac maent yn aml yn rhan o'r gwaith o benderfynu ar newidiadau a gyflwynir sy'n effeithio ar eu maes gwaith, tîm neu adran.

Teimlai'r rhan fwyaf o'r staff fod y sefydliad yn gefnogol, a bod y gweithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n ymdrin â'r cleifion yn cael eu grymuso i ddweud a gweithredu pan fydd materion yn codi, yn unol â gofynion eu hymddygiad a'u cymhwysedd proffesiynol eu hunain.

Cytunodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd yr holiadur mai gofalu am y cleifion yw blaenoriaeth bennaf y sefydliad a bod y sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan gleifion. Fodd bynnag, dywedodd un aelod o'r staff wrthym mewn ymateb i'r holiaduron:

"Nid oes cysylltiad da rhwng y ganolfan ganser a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth weithiau. Cwestiynir gonestrwydd am ddiffygion a safonau a dderbynnir gan y Bwrdd lechyd weithiau, yn hytrach na'u derbyn/eu mabwysiadu. Mae gwneud penderfyniadau clinigol yn heriol weithiau, gan fod y ffocws yn gallu bod ar y canser ac nid ar y claf yn ei gyfanrwydd."

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur fod adborth ar brofiad cleifion (e.e. arolygon cleifion) yn cael ei gasglu, gan ddweud eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar yr adborth ar brofiad cleifion, a'u bod yn teimlo bod adborth yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus yn eu cyfarwyddiaeth neu adran.

Gofynnwyd cwestiynau i'r staff yn yr holiadur am eu rheolwr uniongyrchol, ac roedd yr adborth yn gadarnhaol. Gwnaeth un aelod o'r staff y sylwadau canlynol:

"Mae'r rheolwr yn arweinydd eithriadol a chefnogol. Mae safbwynt y claf yn ganolog i'w chynllun datblygu/gwella gwasanaeth. Mae'n annog twf a gwthio'ch hun er mwyn datblygu, gan roi adborth onest ar gynnydd."

Roedd y mwyafrif o'r staff yn cytuno bod eu rheolwr yn annog y rhai sy'n gweithio iddynt i weithio fel tîm, a bod eu rheolwr bob amser yn gefnogol mewn argyfwng personol.

Roedd y staff hefyd yn teimlo bod eu rheolwyr yn rhoi adborth clir ar eu gwaith ac yn gofyn eu barn cyn i benderfyniadau gael eu gwneud sy'n effeithio ar eu gwaith, ac y gellir dibynnu arnynt bob amser i'w helpu gyda thasg anodd yn y gwaith.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur eu bod bob amser yn gwybod pwy oedd yr uwch reolwyr yn y sefydliad. Roedd y staff yn teimlo bod

uwch reolwyr, ar y cyfan, yn ymrwymedig i ofal cleifion. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod cyfathrebu effeithiol rhwng yr uwch reolwyr a'r staff ar y cyfan, a bod yr uwch reolwyr yn cynnwys y staff mewn penderfyniadau pwysig yn rheolaidd, ac yn gweithredu ar adborth gan staff.

Dywedodd 12 allan o'r 19 o aelodau o'r staff a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael gwybodaeth am y Safonau Iechyd a Gofal diwygiedig a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2015.

Roedd y staff yn cytuno bod eu rheolwr llinell uniongyrchol yn cymryd diddordeb cadarnhaol yn eu hiechyd a'u lles a bod eu sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol o ran iechyd a lles.

Dywedodd tri allan o'r 19 o aelodau o'r staff wrthym yn yr holiaduron eu bod wedi gweld camgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau yn ystod y mis diwethaf a allai fod wedi anafu'r staff neu'r cleifion.

Dywedodd y staff eu bod yn cael eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd, a byddai'r sefydliad yn cymryd camau i sicrhau nad ydynt yn digwydd eto. Roedd y mwyafrif o'r staff a atebodd y cwestiwn penodol hwn yn yr holiadur yn cytuno bod y sefydliad yn trin staff sy'n gysylltiedig â chamgymeriad, camgymeriad a fu bron â digwydd neu ddigwyddiad yn deg.

Dywedodd yr holl staff a gwblhaodd yr holiadur pe byddent yn poeni am ymarfer clinigol anniogel, y byddent yn gwybod sut i roi gwybod amdano. Dywedodd pob un ond un o'r staff a gwblhaodd holiadur wrthym y byddent yn teimlo'n ddiogel wrth godi pryderon am ymarfer clinigol anniogel, a'u bod yn hyderus y byddai eu sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon ar ôl iddynt roi gwybod amdanynt.

Roedd y staff yn teimlo bod eu sefydliad yn gweithredu'n deg o safbwynt datblygiad gyrfa neu ddyrchafu, ac nad oedd unrhyw wahaniaethu ar sail cefndir ethnig, rhywedd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabled neu oedran.

Yr hyn sydd angen ei wella

Myfyrion ar rai o'r ymatebion llai ffafriol gan y staff mewn ymateb i rai o'r cwestiynau yn adroddiad AGIC, fel y nodwyd yn yr adran Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yn yr adroddiad hwn, a chymryd camau i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyfiawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Gallwn ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu wrth arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad dwys o un ward: cynhaliwyd arolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad o sawl ward: ymwelwn â nifer o wardiau ac adrannau yn yr un ysbyty er mwyn nodi materion neu themâu a all fod yn gymwys i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad o sawl ysbyty: ymwelwn â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd er mwyn asesu'r broses o lywodraethu a chyflenwi gwasanaethau cyfan.

Fel arfer, ni roddir rhybudd pan arolygir ysbytai. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae ysbytai yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon roedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Ysbyty:Ganolfan Ganser Felindre

Ward/adran:Llawr Cyntaf a'r wardiau Cemotherapi i Gleifion Mewnol

Dyddiad arolygu: 19 a 20 Mawrth 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion ynglŷn â sicrwydd roedd angen mynd i'r afael â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty:Ganolfan Ganser Felindre

Ward/adran:Llawr Cyntaf a'r wardiau Cemotherapi i Gleifion Mewnol

Dyddiad arolygu: 19 a 20 Mawrth 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylid darparu mwy o daflenni gwybodaeth yn Gymraeg.	4.2 Gwybodaeth i Gleifion	Bydd yr holl daflenni gwybodaeth ar gael yn Gymraeg os bydd claf neu berthynas yn dymuno eu cael yn Gymraeg. Atgoffwyd y staff i gynnig y rhain fel rhan o'r broses dderbyn yn unol â 'chynnig rhagweithiol' safonau'r Gymraeg.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
Ailddylunio neu adleoli'r bwrdd cipolwg ar gleifion ar ward y Llawr Cyntaf er mwyn sicrhau cyfrinachedd y cleifion.		Mae bwrdd cipolwg gyda sgriniau preifatrwydd wedi cael eu harchebu, ac rydym yn aros iddynt gyrraedd er mwyn sicrhau cyfrinachedd y cleifion.	Rheolwr y Ward	Mehefin 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Cafodd enwau'r cleifion eu newid yn syth i lythrennau cyntaf eu henwau wrth i ni aros i'r bwrdd newydd gyrraedd.		
Cofnodi trafodaethau ynghylch DNACPR yn nodiadau cleifion.	6.2 Hawliau Pobl	Dylai'r holl gleifion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty ac sy'n cael trafodaethau ynghylch DNACPR gyda'r tîm gofal lliniarol gynnwys y trafodaethau yn Canisc ac yn nodiadau achos cleifion. Bydd y tîm gofal lliniarol yn archwilio nodiadau achos cleifion er mwyn sicrhau bod trafodaeth wedi'i chynnwys yn y nodiadau achos, ochr yn ochr â'r ffurflenni DNACPR wedi'u cwblhau. Caiff cynllun gweithredu ei ddatblygu yn dilyn yr archwiliad.	Tîm Lliniarol Gofal	Gorffennaf 2019
Arddangos poster Gweithio i Wella mewn ardal amlwg ar ward y Llawr Cyntaf.	6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth	Taflenni Gweithio i Wella ar gael yn nerbynfeydd y wardiau i gleifion a pherthnasau. Bydd posteri yn cael eu harddangos.	Rheolwr y Ward	Mehefin 2019
Darparu gofal diogel ac effeithiol				

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Adolygu storio cyfarpar ar ward y Llawr Cyntaf a defnyddio gwelyau gwag ar ward y Llawr Cyntaf er mwyn i'r gwelyau gael eu glanhau'n effeithiol cyn derbyn cleifion newydd.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Ym mis Gorffennaf, bydd y wardiau i gleifion mewnol yn cael eu had-drefnu a bydd hyn yn cynnwys adolygu defnydd o le, gan gynnwys cyfleusterau storio.	Rheolwr y Ward a'r Tîm Atal a Rheoli Heintiau	Gorffennaf 2019
Atgoffa'r staff am bolisi'r Ymddiriedolaeth mewn perthynas â gwisgo laniardiau, a chynnal archwiliadau rheolaidd i fonitro'r defnydd o laniardiau mewn ardaloedd clinigol.		Rheolwr y ward a'r Tîm Atal a Rheoli Heintiau i atgoffa'r staff o bolisi'r Ymddiriedolaeth. Newid y laniardiau am fathodynau ag enwau arnynt i staff mewn ardaloedd clinigol. Cynnwys archwiliadau chwarterol er mwyn monitro'r defnydd o laniardiau mewn ardaloedd clinigol.	Rheolwr y Ward a'r Tîm Atal a Rheoli Heintiau	Gorffennaf 2019
Addasu/atgyweirio'r ddyfais cau ei hun sydd wedi'i chysylltu i'r drws sy'n arwain i mewn i'r ystafell driniaeth cemotherapi ar y ward Cemotherapi i Gleifion Mewnol.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Mae'r ddyfais cau/cloi ei hun wedi cael ei hatgyweirio ac mae bellach yn gweithio'n iawn. Mae angen mynediad drwy sweipio ar gyfer mynd i mewn i'r ystafell driniaeth	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
Rhoi cynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar yr	3.1 Gofal Diogel a	Bydd rheolwyr y wardiau yn codi hyn yn fisol yn y cyfarfodydd tîm misol a	Rheolwyr	Gorffennaf

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
unigolyn ar waith.	Chlinigol Effeithiol	byddant yn monitro'r cynlluniau gofal er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y claf ac yn cael eu diweddarau'n rheolaidd. Bydd rhoi'r system e-ddogfennu ar waith yn cefnogi'r cynlluniau gofal i'w gwneud yn fwy unigol.	Wardiau	2019 Cynllun peilot e-ddogfenu Medi 2019
Sicrhau bod sgriniau'r cyfrifiaduron wedi eu cloi pan nad oes neb yn eu goruchwyllo, hyd yn oed am gyfnod byr.	3.4 Technoleg Llywodraethu Gwybodaeth a Chyfathrebu	Atgoffwyd yr holl staff am bwysigrwydd cyfrinachedd y claf a'r angen i gloi sgriniau cyfrifiaduron. Atgoffwyd yr holl staff am eu dyletswydd i gwblhau'r hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth	Rheolwr y Ward Prif Fferyllydd	Cwblhawyd
Dylid adolygu ac aildrefnu nodiadau'r cleifion.	3.5 Cadw cofnodion	Mae angen i dderbynnydd y wardiau sicrhau bod yr holl waith papur yn cael ei ffeilio yn adrannau cywir nodiadau achos cleifion. Caiff gwaith papur rhydd ei ffeilio'n gywir yn lle eu storio ym mlaen y nodiadau achos a'u ffeilio mewn modd cyson. Fel y nodwyd yn yr adroddiad, bydd rhoi'r system e-ddogfennu ar waith ar gyfer y system gweinyddu cleifion yn electronig yn mynd i'r afael â'r mater hwn ymhellach.	Derbynnydd y Wardiau	Mehefin 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Myfyrio ar rai o'r ymatebion llai ffafriol gan y staff mewn ymateb i rai o'r cwestiynau yn adroddiad AGIC, fel y nodwyd yn yr adran Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yn yr adroddiad hwn, a chymryd camau i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd.	7.1 Y Gweithlu	Mae'r tîm nyrsio, y tîm uwch-reolwyr a'r tîm gweithredol wedi cael copi o'r adroddiad drafft a byddant yn myfyrio ar rai o'r ymatebion llai ffafriol ac yn gweithredu arnynt. Caiff yr adroddiad terfynol ei gyflwyno'n ffurfiol yng nghyfarfodydd a phwyllgorau'r Ymddiriedolaeth. Mae gwaith yn cael ei wneud mewn perthynas ag Arolwg Staff Cymru Gyfan ac mae rhai o'r materion a godwyd wedi eu cofnodi mewn gwaith sydd eisoes wedi'i gynllunio.	Uwch-reolwyr	Awst 2019

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Vivienne Cooper

Teitl swydd: Pennaeth Nyrsio

Dyddiad: 22/05/19